**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Tachwedd 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas ac R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 81. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU

Cychwynnodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 82. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor a Miss C. L. Williams.

## 83. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Hydref 2018 - Rhifau Cofnod 68-80

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Hydref 2018 - Rhifau Cofnod 27-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Tachwedd 2018 - Rhifau Cofnod 30-32

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Tachwedd 2018 - Rhifau Cofnod 66-78

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**84. CYFLWYNIAD: RHAGLEN NYTH LLYWODRAETH CYMRU**

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd y Rheolwr Datblygu Partneriaeth, Mr Rick Ward, yn medru mynychu yn anffodus ac roedd wedi ad-drefnu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2019 y Cyngor.

**85. ADRODDIAD Y MAER**

Soniodd y Maer am yr amrywiol ddigwyddiadau roedd wedi eu mynychu yn y mis diwethaf, gan son yn benodol am ei bore coffi i godi arian i Sefydliad y Galon Prydain, ac adroddodd ei fod wedi codi dros £740.

Diolchodd y Cynghorydd P. Prendergast i'r Cynghorydd Mullen-James am fynychu Swper Pysgod yr RNLI yng Ngorsaf Bad Achub y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**86. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Dyddiad | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyngh B Mellor | Costau teithio i Gyfarfod NMWATC yn y Trallwng | 615 | 05/11/18 | 65.70 |
| B Creative Limited (via Amazon) | 250 amlen ar gyfer cardiau cyfarch | 616 | 17/10/18 | 8.52 |
| Conrad | 5 x 2019 Dyddiadur | 617 | 07/11/18 | 9.60 |
| JTM Signs | Arwyddion ar gyfer Sul y Coffa | 618 | 07/11/18 | 288.00 |
| Newsquest Media | Hysbyseb ar gyfer Sul y Coffa | 619 | 08/11/18 | 120.00 |
| Cyfrif Elusen Maer Rhuthun | Cyfraniad ar gyfer Noson Elusen 17eg Tachwedd 2018 | 620 | 26/10/18 | 35.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | | **£526.82** |

**87. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2018 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**88. AROLWG RHEOLAU SEFYDLOG CYNGOR TREF Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 70 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog diwygiedig yn ffurfiol (copïau wedi eu dosbarthu ymlaen llaw).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo;'r Rheolau Sefydlog diwygiedig.*

**89. EITEM ER GWYBODAETH: SUL Y COFFA**

Nododd y Cynghorydd P. Prendergast ei bryderon gydag elfennau o'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Tomos a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau i gael cyfarfod gyda'r Gweinidog newydd, y Parch. Mansfield, a'r Cyngor Tref i ddatrys mân broblemau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cyfarfod gyda'r Parch. Mansfield.*

**90. EITEM ER GWYBODAETH: YMWELIAD SAFLE SC2**

Dywedodd Clerc y Dref bod gwahoddiad wedi ei roi i holl Gynghorwyr y Dref i ymweld â safle SC2 naill ar ar ddydd Gwener 30ain Tachwedd neu ddydd Mercher 5ed Rhagfyr ar amser o'u dewis nhw.

***PENDERFYNWYD*** *bod mwyafrif y cynghorwyr ar gael am 3.30pm ar ddydd Mercher 5ed Rhagfyr.*

**91. EITEM ER GWYBODAETH: DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO A PHARTNERIAETH SC2**

Dywedodd Clerc y Dref bod gwahoddiad wedi ei ymestyn i'r holl Gynghorwyr Tref i fynychu bwyty 1891 rhwng 3pm a 5pm ar ddydd Iau 29ain Tachwedd.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cynghorwyr A. R. James, A. S. Johnson, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams yn mynychu.*

**92. EITEM ER GWYBODAETH: GWEITHDY BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDU GOGLEDD CYMRU**

Adroddodd Clerc y Dref y byddai ef a'r Dirorwy Glerc yn mynychu'r uchod yng Nghanolfan Gymunedol Bodelwyddan rhwng 10am ac 1pm ar ddydd Gwener 30ain Tachwedd.

**93. EITEM ER GWYBDOAETH: 'CHRISTMAS POPS'**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y dyraniad tocynnau arferol i'r Cynghorwyr, a gafodd eu dosbarthu i'r cynghorwyr a oedd yn bresennol.

**94. EITEM ER GWYBODAETH: COEDEN NADOLIG Y STRYD FAWR**

Soniodd y Cynghorydd A. J. Rutherford am stori negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol ynglyn â maint ac iechyd y goeden.

Ychwanegodd yr Aelodau eu pryderon ynglyn â safon y goeden a ddarparwyd gan y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn mynd i edrych ar y goeden drannoeth a siarad gyda'r cwmni sy'n darparu'r goeden, Proarb, os yw'r pryderon yn ddilys.*

**95. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**96. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**97. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd a'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol er gwybodaeth i'r aelodaeth ehangach:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 23ain Tachwedd 2017 | - | Rhifau Cofnod 16-21 |
| Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 19eg Rhagfyr 2017 | - | Rhifau Cofnod 22-25 |
| Pwyllgor CSG | - | 10fed Medi 2018 | - | Rhifau Cofnod 22-27 |
| Pwyllgor CSG | - | 8fed Hydref 2018 | - | Rhifau Cofnod 28-34 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**98. PRYDERON CYNGHORYDD / CAIS AM GANIATÂD I FOD YN ABSENNOL O GYFARFODYDD**

Ymhellach i gofnod rhif 77 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, adroddodd Clerc y Dref bod y cynghorydd dan sylw wedi ymrwymo i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 5ed Rhagfyr 2018, gan ddileu'r angen i ystyried ei gais am ganiatâd.

Dywedodd aelodau'r panel a sefydlwyd i gyfarfod gyda'r cynghorydd bod y cyfarfod yn un cynhyrchiol.

Diolchodd y cynghorwyr i'r panel am eu hamser a'u hymrwymiad i ddelio gyda'r pryderon a godwyd gan y cynghorydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth.*

**99. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………………..

Dyddiad: …………………………